# Cyngor Cymuned Tudweiliog
## Tudweiliog Community Council

Heulwen Williams
Clerc/clerk
01758 770415

Pen Cefn,
Dinas,
Pwllheli.
LL53 8UB.

Cofnodion Cyngor Cymuned Tudweiliog 9ed Hydref 2023
Festri Capel Garnfadryn

Presennol: Terry Huws, Dafydd Williams, Sian Parri, Deio Williams, John Davies, Alan Hughes, Sioned Pearson, Gareth Jones, Chris Brady, Catrin Williams

Ymddiheuriadau: Alun Williams, Henry Hughes

1. Cadeiriwyd cychwyn y cyfarfod gan Gareth Jones, ac estynnodd groeso i bawb. Cyrhaeddodd yr is gadeirydd Catrin Williams ac fe gymerodd hi drosodd y gadari.

2. Derbynwyd y cofnodion diwethaf fel rhai cywir.

3. Materion yn codi o'r cofnodion:
   a. **Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy (Hysbysfwrdd) –** Dywedodd Chris Brady ei fod am brisio gwaith creu hysbysfwrdd, bydd yn gwybyddu'r Clerc pan fydd wedi cwblhau y pris.
   b. **Tir Garnfadryn-** Dim datblygiad
   c. **Mynwent Newydd Tudweiliog** – Dywedodd y Clerc ei bod wedi siarad a Pennaeth Ysgol Tudweiliog au bod fel Llywodraethwyr am drafod y mater y neu cyfarfod nesaf. Yn y cyfamser bydd y Clerc yn parhau a'r gwaith o gyflwyno cais cynllunio 'pre app' a hefyd yn cysylltu a chwmni fydd yn gallu profi ansawdd y tir.
   Ch. **Ethol aelod o'r Cyngor Cymuned i fod ar bwyllgor Llywodraethol Ysgol Tudweiliog** - Cytunodd Catrin Williams
   d **Lwfans Cynghorwyr Cymuned -** Trafodwyd y cynnig o lwfans i'r Cynghorwyr – roedd pawb am ei wrthod eto eleni.
   dd**. Arwyddion groeslon ger Pengraig-** Cysylltodd y Clerc a'r adran ffyrdd, deallwyd fod arwyddion wedi eu gosod yno erbyn hyn.

e. **Llainfatw –** Adroddodd Sian Parri ei bod wedi derbyn cadarnhad fod Llainfatw wedi ei werthu. Penderfynnwyd I'r Cyngor Cymuned gysylltu a'r Parch Kevin Ellis I holi ble mae'r arian wedi eu cadw ac I ba bwrpas y bydd yn cael ei wario, gan hefyd ddatgan ein siomedigaeth fod hyn wedi digwydd mor ddisymwyth.

4. Gohebiaeth:

a. **Zurich –** Anfonodd y Clerc siec I'r cwmni yswiriant, ond cafwyd ar ddeall na dderbynwyd y siec. Bydd y Clerc yn anfon ail un iddynt mor fuan a phosib.
b. **Anfoned Cyngor Gwynedd-** Derbynwyd anfoneb am £240.00 am waith yr archwyliad mewnol – cafwyd caniatad I'w thalu.
c. **Talu Cyflog y Clerc –** Cafwyd caniatad i'w dalu

5. Unrhyw Fater Arall:-

a. Derbynwyd pryder fod coed ar glawdd Plas Llangwnnadl ac I lawr heibio'r Eglwys angen eu asesu yn dilyn y gwyntoedd cryfion a fu'n ddiweddar – bydd y Clerc yn anfon at yr adran Priffyrdd.
b. Derbynnwyd cwyn fod dau ddrws pren sydd ar yr Odyn Galch ym Mhorthysgaden wedi eu malurio, ac o'r herwydd mae pobl yn ei ddefnyddio fel toilet. Bydd y Clerc yn ysgrifennu at Carter Jonas gan ofyn iddyn ail osod y drysau. Ar yr un pryd bydd y Clerc yn tynnu eu sylw ar y grid a'I fod yn beryglus gan fod y bariau haearn yn rhy bell o'u gilydd.
c. Derbynwyd pryder fod clawdd Wenallt yn tyfu I'r lon ac felly yn gorfodi cerbydau I ddal allan I ganol y ffordd wrth basio. Bydd y Clerc yn gwybyddu'r Ardran Priffyrdd.
Ch. Dernynwyd pryder unwaith eto am or yrry sy'n digwydd ar lon yr Ysgol heibio'r Refail Tudweiliog. Serch fod gorchymun 20myr wedi dod I rym ers rhai wythnosau nid yw wedi datrys y broblem. Bydd y Clerc yn anfon neges ar yr adran traffic yn gofyn iddyn edrych I fewn I hyn eto gan ysytriaeth o ddifrif I 'speed bumps'
d. Derbynwyd cwyn fod cyflwr llwybyr yr arfodir mewn manau fel Porthysgaden I Porthyslaid yn ddrwg iawn – bydd y Clerc yn gwybyddu swyddog o'r adran llwybrau.

Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Lun 13eg Tachwedd 2023 am 7.30yh
Canolfan Llangwnnadl.